



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Grant Cymorth Ychwanegol Cynnig Gofal Plant Cymru

Hydref 2021

Canllawiau ar Grant Cymorth Ychwanegol Cynnig Gofal Plant Cymru

Diben y Grant Cymorth Ychwanegol

1. Mae Cynnig Gofal Plant Cymru (y Cynnig) yn darparu 30 awr o ofal plant ac addysg gynnar wedi'i ariannu gan y llywodraeth i blant rhieni cymwys am 48 wythnos y flwyddyn. Mae'r Cynnig wedi ei lunio mewn ffordd sy'n rhoi ystyriaeth i'r rhwystrau y gall rhieni cymwys eu hwynebu wrth ddefnyddio'r elfen gofal plant yn benodol, gan gynnwys plant ag anghenion cymorth ychwanegol. Gallai hyn gynnwys, er enghraifft, plant ag Anghenion Addysgol Arbennig (AAA), Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY), anabledau dysgu neu anabledau eraill neu anghenion iechyd sy'n golygu bod angen cymorth ychwanegol¹.
2. Er mwyn sicrhau bod elfen gofal plant y Cynnig yn un cynhwysol i blant cymwys sydd angen cymorth ychwanegol, mae cymorth wedi'i ddarparu drwy gyfrwng ffrwd ariannu ar wahân, sef Grant Cymorth Ychwanegol Cynnig Gofal Plant Cymru. Gall awdurdodau lleol ddefnyddio'r arian hwn i sicrhau bod plant cymwys ag anghenion ychwanegol yn gallu manteisio ar elfen gofal plant y Cynnig yn yr un modd â phlant cymwys eraill.
3. Mae'r canllawiau hyn yn rhoi cyngor ar sut y gellir defnyddio'r grant cymorth ychwanegol, ynghyd ag enghreifftiau o sut y gellir gwario'r arian sy'n cael ei roi drwy'r grant. Sylwch nad yw'r enghreifftiau a nodir yn y canllawiau hyn yn rhestr gyflawn. Gan na fwriedir i'r canllawiau ymdrin â'r holl sefyllfaoedd ac amgylchiadau posibl, gall achosion godi lle bydd angen gwneud penderfyniadau ariannu ar sail achosion unigol, gan edrych ar ystyriaethau ehangach.
4. Mewn rhai achosion, ond nid o reidrwydd pob achos, gall cais am Grant Cymorth Ychwanegol olygu ei fod yn dod i sylw'r awdurdod lleol y gallai fod gan blentyn anghenion dysgu ychwanegol (ADY). Yn dibynnu ar yr amgylchiadau, gallai hyn olygu ei bod yn ofynnol i'r awdurdod lleol benderfynu a oes gan y plentyn ADY. Mae paragraffau 11.5 – 11.7 ymlaen o'r Cod ADY² yn ymdrin â phryd y mae'n ofynnol i awdurdod lleol benderfynu a oes gan blentyn sydd o dan oedran ysgol gorfodol ac nad yw'n mynychu ysgol a gynhelir anghenion dysgu ychwanegol (ADY).
5. Os ydych yn dymuno gwario'r Grant Cymorth Ychwanegol ar rywbeth nad yw'n cael ei gynnwys yn benodol yn y canllawiau hyn, cysylltwch ag aelod o Dîm Cynnig Gofal Plant Llywodraeth Cymru i drafod ymhellach.

Cymorth ychwanegol

¹ Mae gan Gorff Llywodraethu Lleoliad blynyddoedd cynnar a gynhelir ddyletswyddau dan y Ddeddf ADY ac mae gan yr awdurdod lleol ddyletswyddau statudol tuag at blant ag ADY wrth ariannu addysg feithrin nas cynhelir. Mae dyletswydd gan awdurdod lleol hefyd dros blant mewn darpariaeth o fath arall nas cynhelir, fel meithrinfeydd preifat dan y system ADY pan fo'r plentyn wedi cyrraedd 2 oed. O fis Medi 2021, mae gan gyrrff llywodraethu meithrinfeydd a gynhelir ac awdurdodau lleol ddyletswyddau statudol o dan Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Cymru 2018, a'r Cod a'r rheoliadau cysylltiedig.

² Mae'r Cod ADY i'w gael yma - [210326-cod-anghenion-dysgu-ychwanegol-cymru-2021.pdf](#)

6. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y gall y broses o ganfod a oes gan blentyn sydd o fewn yr ystod oedran cymwys i fanteisio ar y Cynnig anghenion cymorth arbennig fod yn ddryslyd i rieni ac ymarferwyr y blynyddoedd cynnar. Gwyddom y gall adnabod anghenion addysgol arbennig yn aml ddibynnu ar amrywiaeth o ffactorau, gan gynnwys math neu ddifrifoldeb cyflwr plentyn a'i oedran. Mae'n bosib na fydd nifer o blant 3-4 oed wedi cael datganiad o anghenion addysgol arbennig, cynllun datblygu unigol (CDU) neu gael eu hadnabod yn ffurfiol fel plant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Am y rheswm hwn, nid ydym yn ei gwneud yn ofynnol i blant sy'n cael cymorth ychwanegol drwy'r grant hwn fod wedi cael asesiad a diagnosis ffurfiol, fodd bynnag mae amrywiol faterion y gallai awdurdodau lleol eu hystyried o bosib.
7. Wrth ystyried cais am gymorth, gallai fod yn ddefnyddiol ystyried a gyflawnwyd unrhyw asesiad blaenorol o anghenion y plentyn. Gall plant sydd eisoes wedi derbyn gofal plant drwy Dechrau'n Deg fod wedi cael asesiad Rhestr y Sgiliau Tyfu yn barod, neu gallai Ymwelydd Iechyd fod wedi darparu asesiad o'r fath. Dylai'r asesiadau hyn, yn ogystal ag unrhyw CDU neu ddatganiad sydd yn ei le mewn perthynas â phlentyn, gael eu hystyried wrth nodi a oes angen unrhyw gymorth ychwanegol yn unol â'r canllawiau hyn. Dylai'r awdurdod lleol hefyd ystyried cymryd cyngor gan y Swyddog Arweiniol Clinigol Addysg Dynodedig (DECLO) o fewn eu Bwrdd Iechyd.
8. Yn gyffredinol, mae'r Cynnig Gofal Plant yn diffinio plant sydd angen cymorth ychwanegol fel plant sydd â:
 - Nam gwybyddol ac anawsterau dysgu penodol, cymedrol, difrifol neu ddwys
 - Anawsterau ymddygiadol, emosiynol a chymdeithasol
 - Anhawster o ran cyfathrebu a rhyngweithio, gan gynnwys awtistiaeth ac anawsterau lleferydd ac iaith
 - Anawsterau synhwyrol a/neu gorfforol, gan gynnwys nam ar eu clyw a/neu nam ar eu golwg neu anawsterau corfforol
 - Cyflyrau meddygol
 - Anghenion iechyd eraill (nad ydynt wedi'u cynnwys yn y diffiniad ffurfiol o AAA ac ADY) sy'n golygu bod angen mwy o gymorth arnynt na rhai o'u cyfoedion er mwyn elwa'n llawn ar elfen gofal plant y Cynnig.
9. Dylai'r Grant Cymorth Ychwanegol gael ei ddefnyddio at y diben o gefnogi plant sy'n dod o dan y categorïau uchod. **Nid** yw'r cymorth wedi'i gyfyngu i'r plant hynny sydd â datganiadau neu ddiagnosis sy'n bodoli eisoes, CDU, nac i'r plant hynny sydd ag anghenion o fewn y diffiniad AAA neu ADY³.
10. Fodd bynnag, anogir awdurdodau lleol i gysoni eu trefniadau ar gyfer cefnogi plant sydd angen cymorth ychwanegol â'u trefniadau sydd wedi ennill eu plwyf ar gyfer cefnogi plant ag AAA/ADY fel rhan o'u dyletswyddau statudol. Bydd angen i awdurdodau lleol ystyried y ffordd orau o ddyrannu unrhyw adnodd i ddarparu'r gwerth gorau am arian gan ystyried budd pennaf y plentyn bob amser.

³ I weld y diffiniadau, ewch i [210326-cod-anghenion-dysgu-ychwanegol-cymru-2021.pdf](https://www.gov.wales/210326-cod-anghenion-dysgu-ychwanegol-cymru-2021.pdf)

11. Gellir defnyddio'r grant ar unrhyw adeg pan fydd y plentyn yn manteisio ar y Cynnig a bod yr angen am gymorth ychwanegol yn cael ei nodi. Os yw plentyn y nodwyd bod ganddo anghenion cymorth ychwanegol yn symud o ddarpariaeth Dechrau'n Deg i fanteisio ar y Cynnig Gofal Plant, dylid dilyn canllawiau trosglwyddo Dechrau'n Deg.

Sut y dylid defnyddio'r cyllid?

12. Mae'r cyllid sy'n cael ei ddyfarnu drwy'r Grant wedi'i gysylltu'n benodol ag **elfen gofal plant** y Cynnig Gofal Plant, ac ni ddylai mewn unrhyw fodd gymryd lle'r trefniadau presennol y gallai awdurdodau lleol fod yn eu gweithredu i roi cymorth ariannol i blant ag AAA/ADY. Rhaid i awdurdodau lleol barhau i gydymffurfio â'u dyletswyddau statudol o ran diwallu anghenion plant sydd ag AAA/ADY, gan gynnwys plant sy'n iau na'r oedran ysgol gorfodol y telir yr elfen gofal plant o'r Cynnig iddynt. Ar hyn o bryd, mae'r dyletswyddau hynny o dan Rhan 4 o Ddeddf Addysg 1996 mewn cysylltiad ag AAA, er eu bod yn cael eu disodli fesul cam wrth i'r dyletswyddau y darperir ar eu cyfer yn Neddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 gael eu gweithredu dros gyfnod o dair blynedd a ddechreuodd ar 1 Medi 2021.

13. Rhaid ystyried pob opsiwn ariannu perthnasol cyn i'r arian ychwanegol hwn gael ei ddefnyddio, gan gynnwys cyllid a ddarperir i awdurdodau lleol drwy'r Grant Cynnal Refeniw at ddibenion bodloni eu dyletswyddau statudol mewn perthynas ag AAA/ADY. Gan dybio bod pob llwybr ariannu arall wedi'i ystyried, dylid gwario'r Grant Cymorth Ychwanegol i gefnogi plant sy'n dod o fewn diffiniad Llywodraeth Cymru o blant ag anghenion cymorth ychwanegol at ddibenion elfen gofal plant y Cynnig Gofal Plant (gweler paragraff 9 uchod).

14. Dylid gwario'r grant yn unol ag anghenion pob plentyn unigol. Gellir defnyddio'r grant i gefnogi ystod o anghenion cymorth ychwanegol a dylid ystyried sut y gellir defnyddio cyllid i ganiatáu mynediad cyfartal at y Cynnig ar sail anghenion y plentyn penodol hwnnw.

15. Ni ddylid defnyddio'r cyllid at y dibenion canlynol:

- i helpu plentyn sydd ddim yn manteisio ar elfen gofal plant y Cynnig Gofal Plant, naill ai am fod y plentyn a'i deulu yn anghymwys neu oherwydd nad ydynt yn manteisio arno er eu bod yn gymwys.
- ar gyfer hyfforddiant cyffredinol nad yw'n ymwneud ag anghenion y plentyn sy'n manteisio ar elfen gofal plant y Cynnig.
- i gyflawni dyletswyddau eraill, fel cyllido aelodau staff yr awdurdod lleol, nad ydynt yn gysylltiedig â rhoi diagnosis na rhoi cymorth i blant ag anghenion ychwanegol i gael mynediad at yr elfen gofal plant o'r Cynnig.
- i gludo/caniatáu i blentyn deithio i'w leoliad gofal plant neu rhwng ei leoliad cyfnod sylfaen (addysg gynnar) a lleoliad gofal plant neu i'r gwrthwyneb.

16. Gellid defnyddio'r arian ar gyfer y canlynol:

- **Hyfforddi darparwyr** – gallai hyn gynnwys hyfforddiant ar anghenion meddygol/iechyd penodol neu hyfforddiant mwy cyffredinol sy'n

uniongyrchol gysylltiedig â darparu gofal i blentyn penodol ag anghenion ychwanegol. Ni ellir ei ddefnyddio ar gyfer hyfforddiant ehangach i staff nad ydynt yn gysylltiedig â rhoi diagnosis neu gymorth i blant sy'n cael eu diffinio fel plant ag anghenion ychwanegol yn unol â'r canllawiau hyn. Gellir defnyddio'r cyllid i gyflenwi yn lle staff sy'n mynychu hyfforddiant ar anghenion meddygol/gofal iechyd penodol neu hyfforddiant mwy cyffredinol sy'n uniongyrchol gysylltiedig â darparu gofal i blentyn penodol ag anghenion ychwanegol ac sy'n derbyn elfen gofal plant y Cynnig. Dan amgylchiadau o'r fath, fodd bynnag, bydd Llywodraeth Cymru ond yn ariannu cyflenwi am hyd at bum diwrnod mewn blwyddyn ariannol; dim ond o fewn cyllideb a ddyrannwyd i'r awdurdod lleol ar gyfer y grant hwn, a dim ond mewn sefyllfaoedd lle mae'r awdurdod lleol yn fodlon nad oes modd i'r lleoliad ateb y gost am resymau cynaliadwyedd. Bydd defnydd o'r fath o'r grant yn cael ei fonitro'n agos i sicrhau ei fod yn diwallu'r dibenion a fwriadwyd, sef cael gwared â'r rhwystrau i blant ag anghenion cymorth ychwanegol er mwyn eu galluogi i fanteisio ar elfen gofal plant y Cynnig.

- **Staff ychwanegol** – gallai gael ei ddefnyddio er mwyn darparu cymorth arbenigol i blant ag anghenion cymorth ychwanegol mwy difrifol i gael mynediad at y Cynnig. Gallai hyn amrywio o helpu gydag anghenion gofal ychwanegol bob dydd, i ddatblygu cynlluniau datblygu unigol a strategaethau ar y cyd â theuluoedd y plant a gwasanaethau allanol. Hefyd, gellir defnyddio'r cyllid i ddarparu staff wrth gefn ar gyfer gweithwyr sy'n arbenigo mewn rhoi cymorth i blentyn ag anghenion ychwanegol gydol y cyfnod y mae'r plentyn yn manteisio ar y Cynnig.
- **Help llaw** - efallai bod rhai plant angen cymorth ychwanegol gan aelod o'r staff yn achlysurol neu drwy gydol yr amser pan maen nhw gyda'u darparwr gofal plant. Bydd hyn yn cael effaith ar gymarebau staff y lleoliad a gellir defnyddio'r grant i dalu costau'r aelod staff perthnasol sy'n darparu gofal i'r plentyn. Gellir defnyddio'r cyllid i gefnogi plentyn unigol neu grŵp o blant sydd ag anghenion cymorth ychwanegol er mwyn sicrhau bod y lleoliad yn cynnal eu cymarebau o hyd.
- **Cyfarpar** – efallai bod rhai plant ag anghenion cymorth ychwanegol angen cyfarpar ychwanegol. Bydd hyn yn amrywio yn ôl anghenion y plentyn, ond gall gynnwys deunyddiau dysgu ychwanegol neu gyfarpar chwarae arbenigol. Gwasanaeth iechyd yr awdurdod lleol ddylai ddarparu unrhyw gyfarpar arbenigol sydd ei angen ar blentyn drwy'r adeg (fel cymhorthion symud).
- **Addasu lleoliadau** – gallai hyn gynnwys addasiadau i blant ag anghenion mynediad penodol, creu manau penodol i blant ag anghenion cymorth ychwanegol, newid y lleoliad i blant â nam ar eu golwg, neu wella'r acwsteg i blant byddar.
- **Costau gweinyddol** – bydd rhai awdurdodau lleol angen adnoddau arbenigol ychwanegol er mwyn ymgymryd ag asesiadau neu ddiagnosis o blant y credir bod arnynt anghenion ychwanegol. Ni fydd y gwariant yma yn cael ei ganiatáu oni bai bod cais wedi ei wneud a chael ei

Cymhwyso a dyrannu'r Grant Cymorth Ychwanegol

17. Bydd angen i Awdurdodau Cyflenwi a'r Awdurdodau Ymgysylltu sy'n bartneriaid weithredu proses ar gyfer ymdrin â cheisiadau am arian yn unol â'r grant hwn, sy'n caniatáu i benderfyniadau gael eu gwneud gan yr awdurdod y mae rhiant yn byw yn ei ardal, gyda thaliad a cadarnhad o'r grant sy'n cael ei wneud gan yr Awdurdod Cyflenwi.
18. Dylai'r ddau awdurdod sicrhau nad oes unrhyw oedi diangen wrth gymhwyso a dyrannu'r grant a dylent gydweithio'n agos i sicrhau nad yw'r rhiant/rhieni a'r plentyn o dan anfantais oherwydd anghenion cymorth ychwanegol y plentyn.
19. Disgwylir y bydd lefel briodol o gyllid yn cael ei ddyrannu i adlewyrchu anghenion y plentyn unigol. Bydd angen ystyried pob achos yn ôl ei rinweddau ei hun.
20. Dylid adolygu cyllid sy'n cael ei ddyfarnu drwy'r Grant Cymorth Ychwanegol bob tymor er mwyn sicrhau bod y cymorth yn parhau i fod yn briodol ar gyfer anghenion y plentyn. Os bu unrhyw newidiadau i'r amgylchiadau, dylid ailasesu'r plentyn i sicrhau bod angen cymorth o hyd, a bod y cymorth hwnnw'n diwallu ei anghenion.
21. Rhaid i unrhyw wybodaeth a gaiff ei chyfnwid rhwng Awdurdod Cyflenwi a'r Awdurdod Ymgysylltu wrth drefnu cymorth ychwanegol i blentyn yn unol â'r grant hwn gydymffurfio â:
 - gweithdrefnau cydymffurfio'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data yr awdurdod lleol ei hun
 - yr 'hysbysiad preifatrwydd' ar gyfer ffurflenni gwybodaeth monitro'r gwasanaethau a ddefnyddir fel rhan o'r 'cynnig gofal plant' a gynhyrchwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer darparu'r Cynnig Gofal Plant
 - Atodlen 5 i'r llythyr cynnig grant ar gyfer gweithredu'r Cynnig Gofal Plant.

Hawlio costau gweinyddol

22. Bydd y cyllid grant yn cael ei dalu yn uniongyrchol i'r Awdurdod Cyflenwi. Bydd angen i unrhyw Awdurdod Ymgysylltu sydd â chostau gweinyddol ychwanegol mewn perthynas â'r elfen anghenion ychwanegol o'r Cynnig Gofal Plant (uwchlaw'r gyllideb a ddyrannwyd iddynt) sicrhau bod ei achos busnes wedi ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru cyn gwneud hawliad i Awdurdod Cyflenwi perthnasol. Bydd yr hawliad yma yn cynnwys tystiolaeth o'r gymeradwyaeth gan Lywodraeth Cymru. Byddwn yn disgwyl i fanylion y berthynas taliadau yma a'r amodau cysylltiedig gael eu cynnwys yn y Cytundeb Partneriaeth gofynnol o dan amodau'r Grant Gweinyddol.

Prynu nwyddau

23. Er mai cyllid refeniw yw'r grant hwn, rydym yn deall y bydd achosion pan fydd angen prynu eitemau o bosib e.e. cyfarpar i gefnogi anghenion penodol

plentyn. Mae gan Lywodraeth Cymru drothwy cyfalaf o £5,000, sy'n golygu y gellir ystyried prynu asedau sy'n werth llai na £5,000 yn wariant refeniw ac nid cyfalaf. Mae'r trothwy £5,000 yn berthnasol i bob grŵp gwahanol o bryniant, e.e. gall awdurdod brynu cyfarpar sy'n werth hyd at £4,999.99 ar gyfer un plentyn, a gwario'r swm hwn ar blentyn arall eto. Ni fydd yr awdurdod wedi gwario dros y trothwy.

24. Bydd unrhyw adnoddau neu gyfarpar a brynir drwy'r Grant hwn yn eiddo i'r awdurdod lleol ac yn cael ei reoli gan yr awdurdod. Lle bo'n ymarferol bosibl, os yw plentyn ag anghenion cymorth ychwanegol yn derbyn cymorth y Cynnig Gofal Plant drwy fwy nag un darparwr, dylid trefnu bod yr adnodd neu'r cyfarpar ar gael i'r plentyn ym mhob lleoliad. Bydd angen i'r awdurdod lleol ystyried y ffordd orau o ddyrannu ac ailddyrrannu unrhyw adnodd neu gyfarpar, er mwyn sicrhau'r gwerth gorau am arian gan ystyried lles y plentyn bob amser.
25. Cynghorir awdurdodau lleol i sicrhau bod lleoliadau gofal plant a rhieni yn deall bod unrhyw gyfarpar a brynir drwy'r grant hwn yn parhau yn eiddo i'r awdurdod lleol a bod y cyfarpar ar gael i'r plentyn tra'i fod yn manteisio ar y Cynnig yn unig

Dyrannu grantiau

26. Bydd llythyrau Grant ar ran Awdurdodau Ymgysylltu yn cael eu hanfon at yr Awdurdod Cyflenwi, gyda chopi yn cael ei anfon at yr Awdurdod Ymgysylltu.

Hawliadau

27. Bydd Awdurdodau Cyflenwi yn gallu hawlio'r Grant Cymorth Ychwanegol yn fisol ar yr un ffurflen benodol â'r Grant Gofal Plant. Bydd Llywodraeth Cymru yn monitro'r Grant Cymorth Ychwanegol drwy'r ffurflenni cyson hyn, yn ogystal â'r ffurflenni ynghylch y Cynnig Gofal Plant yn gyffredinol.
28. Sylwch:- mae'r canllawiau hyn yn gymwys am gyfnod y grant a mae posibilrwydd y byddant yn newid yn y dyfodol.

Atodiad 1 - Achos Busnes Grant Cymorth Ychwanegol

YR AWDURDOD LLEOL

SWYDDOG ARWEINIOL:

SWYDDOG CYSWLLT:

GRANT

1 CRYNODEB O'R CAIS

2 RHESWM DROS Y CAIS

3 OPSIYNAU / YSTYRIAETHAU

4 COSTAU

Dyma fyddai cyfanswm y costau angenrheidiol yn yr achos busnes hwn:

Grant XXXX – dyraniad gwreiddiol	£
Cyllid ychwanegol i ateb y galw hyd at xx/xx/xxxx	£
Cyfanswm	£

5 CANLYNIADAU AC ALLBYNNAU YN SGIL Y CYLLID YCHWANEGOL

6 RISGIAU OS NA CHEIR Y CYLLID

7 CYFNOD DAN SYLW